



# Huw Jones

**Oed:** 25

**Lleoliad:** Coedana

**Enw Busnes:** Llaeth Medra Milk

✉ Huw\_jones08@hotmail.com

☎ 07708652842



## **Pam eich bod wedi penderfynnu sefydlu busnes?**

Roedd sefydlu busnes wedi bod yn rhywbeth rwyf wedi bod eisiau ei wneud erioed. Dwi'n credu fy mod yn ddigon profiadol a digon o hunanddisgyblaeth i lwyddo yn y maes. Roedd trafello i Ffrainc yn hwb i mi ac yn sicr wedi fy ysgogi i fentro. Drwy gymorth cyswllt ffermio cefais brofiad amhrisiadwy. Dwi'n meddwl wrth sefydlu busnes newydd ei bod hi'n bwysig cynnig rhywbeth gwahanol ac unigryw i gymharu â beth sydd yn y farchnad yn barod. Ar ôl arbrofi a godro am y flwyddyn gyntaf roedd yr ymateb yn gadarnhaol ac roedd yno lawer o ddiddordeb yn y gymuned ac yn rhanbarthol.

## **Sut mae Llwyddo'n Lleol/Amser i Fentro wedi eich helpu i ddatblygu?**

Mae Llwyddo'n Lleol wedi fy ngalluogi i barhau gyda datblygiad fy ysgytlaeth. Trwy ddilyn cynllun wythnosol roedd hyn yn rhoi mwy o strwythur i mi baratoi a gosod targedau personol a thargedau i'r busnes. Un agwedd roeddwn yn hoffi o gymryd rhan yn y cynllun Amser i Fentro oedd y pwyslais o ddysgu a rhannu syniadau gydag amryw fusnesau lleol. Trwy greu cysylltiadau gyda rhai roedd wedi llwyddo yn lleol roedd hyn yn ffurfio perthnasau rhwng busnesau tebyg. Fel rhan o'r cynllun roedd rhaid gwneud cyflwyniad i sefydliad lleol. Roedd y cyfle yma yn siawns i rannu syniadau a rhoi mewnwelediad a rhoi gwyneb i'r busnes.

## **Beth yw eich gobeithion i'r busnes wrth symud ymlaen?**

Rwyf wedi creu cynllun busnes ar gyfer y 5 mlynedd nesaf felly rwy'n hyderus yn fy nhargedau. Rwyf wedi gosod targedau realistig yn y cyfnod byr yma. Fy mwriad yw datblygu ac ehangu yn raddol tra fy mod yn ymchwilio ag arbrofi. Mae addysgu'r cyhoedd trwy farchnata fy nghynnyrch hefyd yn rhan fawr y buaswn yn hoffi ei ddatblygu. Rwy'n ymwybodol o'r defnydd a'r budd o ddefnyddio gwefannau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo fy musnes ac mae hyn yn chwarae rhan fawr yn natblygiad fy nghynnyrch. Un o'r prif fwriadau sydd gen i ar gyfer fy musnes yw creu diwydiant llewyrchus a hynny yn lleol.

## **Pe bai gennych un frawddeg i ddweud wrth berosn ifanc arall sy'n meddwl dechra busnes, be fysa'r frawddeg honno?**

Peidiwch â rhuthro i fewn i fusnes. Gwnewch eich gwaith cartref gyntaf wedyn mynd amdani.

@llaethmedramilk

